# TAI A’R ECONOMI
# GWNEUD CAIS AM DŶ

## Cyswllt Lleol

Byddwn yn defnyddio’r meini prawf canlynol i asesu a oes gennych Gysylltiad Lleol.

**Os nad oes gennych Gyswllt Lleol, bydd eich cais yn cael ei roi ym Mand 4, heb ystyried eich angen am dŷ:-**

## Cyswllt Bwrdeistref

Bydd ymgeisydd yn cael ei asesu fel rhywun â Chyswllt Bwrdeistref os ydynt wedi:

- Byw’n barhaus yn y Fwrdeistref am o leiaf 3 blynedd yn y 5 mlynedd ddiwethaf o’ch dewis eich hun. Ni fydd ymgeisydd yn sefydlu cyswllt â’r Fwrdeistref wrth fyw mewn carchar neu hostel mechnïaeth.
- Aelodau’r teulu’n byw yn y Fwrdeistref. At ddibenion y polisi hwn, bydd aelod o’r teulu yn fam, tad, chwaer, brawd, nain neu daid, plant neu unrhyw oedolyn a oedd yn gweithredu fel rhiant i’r ymgeisydd ac sydd wedi byw’n barhaus yn y Fwrdeistref am y 5 mlynedd diwethaf.
- Wedi bod mewn swydd barhaus yn ardal y Fwrdeistref am o leiaf 3 blynedd yn y 5 mlynedd ddiwethaf.  Mae’n rhaid i hyn gael ei gadarnhau mewn llythyr gan eich cyflogwr.
- Bydd gan geiswyr lloches a wasgarwyd i Wrecsam heb unrhyw ddewis ac sydd wedi derbyn statws ffoadur gyswllt â’r Fwrdeistref o’r adeg y gwnaed y cais.
- Bydd gan ymgeiswyr sy’n byw mewn lloches (e.e. lloches i fenywod) yn Sir Wrecsam, gyswllt â’r Fwrdeistref o’r adeg y gwnaed y cais.

## Cyswllt Cymunedol

**Bydd ymgeisydd yn cael ei asesu fel rhywun â Chyswllt Cymunedol os ydynt wedi:**

- Byw'n barhaus yn y Gymuned am o leiaf 3 blynedd yn y 5 mlynedd ddiwethaf o'u dewis eu hunain.
- Gyda chysylltiadau teuluol yn y Gymuned. At ddibenion y polisi hwn, bydd aelod o'r teulu yn fam, tad, chwaer, brawd, plentyn, nain neu daid neu unrhyw oedolyn a oedd yn gweithredu rhiant i'r ymgeisydd ac sydd wedi byw'n barhaus yn y Gymuned am y 5 mlynedd diwethaf.
- Bydd gan geiswyr lloches a wasgarwyd i Wrecsam heb ddewis a rhoddwyd statws ffoadur iddynt gyswllt Cymunedol o'r pwynt y gwnaed y cais.
- Bydd gan ymgeiswyr sy'n byw mewn lloches (e.e. lloches i fenywod) yn Sir Wrecsam, gyswllt Cymunedol o'r adeg y gwnaed y cais.

Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod rhai cymunedau wedi mynd yn rhy fawr i ffiniau ward y Cyngor Sir ac y byddai'n rhesymol i ymgeisydd gael cyswllt gyda mwy nag un gymuned.

Yn yr amgylchiadau hyn byddwn yn ystyried dyfarnu cyswllt ar gyfer unrhyw gymuned gan gymryd i ystyriaeth anghenion a dymuniadau'r ymgeisydd ac argaeledd stoc Tai Cyngor addas yn yr ardaloedd hynny. Wrth benderfynu a oes gennych gysylltiad rydym yn ystyried yr uchod fel cymunedau.

| Cymuned | Ward |
|---|---|
| Tref Wrecsam | Acton, Parc Borras, Brynyffynnon, Cartrefle, Erddig, Esclusham, Garden Village, Grosvenor, Hermitage, Little Acton, Maesydre, Offa, Queensway, Rhosnesni, Smithfield, Stansty, Whitegate Wynnstay |
| Brychdyn a Choedpoeth | Brymbo, Bryn Cefn, Coedpoeth, Gwenfro, Mwynglawdd, New Broughton |
| Plas Madoc | Cefn, Llangollen Wledig, Plas Madoc, Rhiwabon |
| Dyffryn Ceiriog | Y Waun (Gogledd a De), Dyffryn Ceiriog |
| Gwersyllt a Llai | Gwersyllt (Dwyrain a De), Gwersyllt (Gogledd), Gorllewin Gwersyllt, Llai |
| Rhos | Johnstown, Pant, Penycae, Ponciau |
| Gogledd Ddwyrain | Gresffordd (Dwyrain a'r Gorllewin), Holt, Marford a Hoseley, Yr Orsedd |
| De Ddwyrain | Bronington, Marchwiail, Owrtyn |